# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Llun, 14 Mai 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies a D. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth
L. McFarlane, Swyddog Polisi a Datblygu Teithio Dysgwyr
K. Morris, Cyfreithiwr Cynorthwyol
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion
A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd,Neuadd y Sir, Caerfyrddin:10.45 am - 10.59 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim Buddiannau Personol yn y cyfarfod.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD KK YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL,** yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol am yr ymgeisydd. Er y byddai datgelu gwybodaeth yn ategu eglurdeb ac atebolrwydd yn y broses gwneud penderfyniadau, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, oherwydd yr angen i sicrhau nad oedd neb yn gwybod pwy oedd yr ymgeisydd na'r teulu.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i swyddogion o'r Gwasanaethau Cyfreithiol, y Gwasanaethau Amgylcheddol ac Addysg a Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod. Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd o ran gwrthod Cam 1 y Panel Adolygu i ganiatáu trafnidiaeth ysgol am ddim i K.K. i'r ysgol agosaf

a dynodedig gan yr AALl a oedd wedi'i lleoli o fewn pellter cerdded statudol, ac felly nid oedd yn cydymffurfio â'r meini prawf a amlinellwyd ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth. Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos. Yn ogystal, gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch elfennau o Polisi'r Awdurdod ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol gan yr Awdurdod, am argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus o gyfeiriad cartref K.K. i'r ysgol ddynodedig, a hefyd am yr asesiad o ran y daith gerdded i'r ysgol yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl oherwydd bod cyfeiriad cartref K.K. o fewn y pellter cerdded statudol i'r ysgol a ddynodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a bod y llwybr cerdded yn addas yn ôl yr asesiad a wnaed yn unol â Meinir Prawf Llywodraeth Cymru.**

______________________ ______________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**